# Monmouthshire Select Committee Minutes

**Meeting of Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc held at County Hall, Usk - Remote Attendance on Dydd Iau, 2ail Rhagfyr, 2021 at 10.00 am**

| **Councillors in attendance** | **Officers in attendance** |
|---|---|
| County Councillor T.Thomas (Chair)<br>County Councillor L. Brown (Vice Chairman)<br><br>County Councillors: C.Edwards, M.Groucutt, D. Jones, M.Lane, M. Powell and J.Watkins | Sharon Randall-Smith, Pennaeth Cyflawniad a Chyrhaeddiad<br>Will Mclean, Prif Swyddog Plant a Phobl Ifanc<br>Jane Rodgers, Pennaeth Gwasanaethau Plant<br>Hazel Ilett, Rheolwyr Craffu<br>Mark Fennessy, Cyflogaeth a Sgiliau<br>Louise Wilce, Cyflogaeth a Sgiliau<br>Melissa Toombs, Cyflogaeth a Sgiliau |

**Apologies:** Peter Strong, NEU

1. **Datganiadau o Fuddiant**

   Cytunodd y pwyllgor i gofnodi unrhyw ddatganiadau buddiant fel a phryd yn briodol wrth drafod yr agenda.

2. **Fforwm Agored i'r Cyhoedd**

   Nid oedd unrhyw sylwadau gan aelodau o'r cyhoedd oedd yn bresennol yn y cyfarfod.

3. **Diweddariad Ysgol Cas-gwent**

   Cyflwynodd y Prif Swyddog ei nodyn gwybodaeth, gan dynnu sylw aelodau at y pwyntiau allweddol:

   - Cyflwr yr adeilad – mae ffocws Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif ar ddarparu adeiladau cynaliadwy ar gyfer y dyfodol, h.y. carbon sero-net. Er y gwnaed peth gwaith yn Ysgol Cas-gwent, nid yw'r adeilad yn effeithiol o ran ynni ac mae angen gwaith sylweddol i'w godi i'r safon a ddisgwylir ar gyfer ysgol yr 21ain Ganrif.

   - Capasiti – Y capasiti presennol yw 1282 lle, gyda 738 disgybl ar y gofrestr gan olygu bod 544 lle gwag – 42%. Mae'n annhebyg y bydd y niferoedd yn newid yn sylweddol dros y 6 i 7 mlynedd nesaf heb unrhyw dwf sylweddol drwy enedigaethau byw neu ddatblygiadau tai i'w disgwyl. Mae'r ysgol hefyd yn gweld disgyblion yn symud ar hyn o bryd i Wyedean, tra bod y Pennaeth ac Ysgol Cas-gwent wedi gweithio'n agos gyda'r ysgolion cynradd yn y clwstwr i annog mwy o blant i symud i Gas-gwent.

- Bydd y gwaith yn dechrau yn y 12 mis nesaf i edrych ar addysg gynradd ac uwchradd yn holl ardal Cas-gwent i sicrhau fod y stad addysg yn addas i'r diben ac yn rhoi gwerth am arian.

Diolchodd y cadeirydd i'r swyddog am ei ddiweddariad a gwahoddodd sylwadau gan aelodau'r pwyllgor, fel sy'n dilyn:

**Her Aelod:**

- A wyddom os bydd costau diweddaru'r adeilad i gyrraedd y safon cynaliadwyedd gofynnol yn fwy na chost adeilad newydd a phryd y gwneir unrhyw benderfyniad? Fedrwch chi egluro'r cyfraddau cyllid band y mae'r nodyn yn cyfeirio atynt?

*Rydych yn iawn a dangoswyd hyn gyda'r ddwy ysgol arall, felly mae angen arolwg manwl i ganfod os gall yr adeilad oddef y lefel honno o adnewyddu. Nid wyf wedi gweld y gyfradd ymyriad cyllid band ar gyfer y tro nesaf hyd yma gan fod gwaith yn dal i fynd rhagddo arno, felly byddwn yn aros eglurdeb ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi pan fydd hynny gennym.*

- Sylweddolaf fod y ffocws ar ddatblygu Ysgol y Fenni ar hyn o bryd ond rwy'n falch i nodi fod gwaith yn mynd rhagddo i roi Cas-gwent mewn sefyllfa i fedru cynnig am y cyllid band C hwnnw pan ddaw ar gael, gan gydnabod ei fod ffordd bell i ffwrdd yn 2024-25. Rwy'n falch iawn i weld y gwelliannau a wnaethpwyd drwy gydol yr haf i wella'r amgylchedd dysgu gyda goleuadau newydd a gostwng yr ôl-troed carbon. Er fod cyllidebau dan bwysau, gobeithiwn y gallwn barhau i fuddsoddi yn yr ysgol. Fy nghwestiwn yw beth fwy fedrir ei wneud yn awr fel bod myfyrwyr Cas-gwent yn derbyn safonau amgylchedd dysgu cyfartal â'u cyfoedion?
- 
- *Rydym bob amser yn adolygu'r cyllid cyfalaf sydd ar gael i ni ond mae bob amser yn fater o gadw'r fantol yn nhermau diwallu anghenion pob ysgol ond byddwn yn parhau i weld pa gwmpas sydd yna i wella'r ysgol, mae hynny'n rhywbeth y gallwn ymrwymo iddo.*
- 
- Hoffwn hefyd awgrymu arolwg o ddisgyblion sy'n gadael yr ysgol gynradd i weld pam eu bod yn dewis Wyedean yn hytrach na Chas-gwent.
- 

*Byddai arolwg yn syniad da i ddeall yr heriau. Mae Cas-gwent yn un o'r clystyrau lleiaf, llawer llai na'r Fenni er enghraifft. Rhai o'r negeseuon a glywn gan bobl yw fod y gwrthwyneb yn digwydd 20 milltir i'r gogledd yn Nhrefynwy gyda myfyrwyr o Loegr yn dymuno ymuno, ond mae'n syniad da i ofyn i rieni gan y gallai arolwg roi sylfaen tystiolaeth mwy meintiol ar gyfer gwneud casgliadau.*

Mae'r adroddiad yn ceisio edrych ar gyflwr yr ysgol gynradd hefyd o gofio fod adeiladau dros dro yn dal i gael eu defnyddio, gan sylweddoli y byddai hyn yn dibynnu ar y cyllid cyfalaf sydd ar gael.

*Rwy'n derbyn y pwynt. Efallai fod cost cael adeilad yn lle'r adeilad dros dro yn ormod, ond gallwn weld os oes unrhyw arian adran 106 neu ffrydiau cyllid eraill y gellid eu defnyddio i wneud gwelliannau.*

- Mae'r brîff yn awgrymu y disgwylir i nifer disgyblion aros fel y maent, ond gyda datblygiadau tai arfaethedig wrth gylchfan High Beech a hefyd yn Sedbury, byddai'n werth trafod hyn gyda Fforest y Ddena ac ydych chi wedi rhoi ystyriaeth lawn i ddatblygiadau tai y dyfodol ar hyd y ffin?
-
- *Mae hyn yn gwestiwn da. Yn anffodus, ni fedrwn roi ystyriaeth i ddatblygiadau yn Lloegr ac yn yr un modd ein hysgolion ein hunain sydd ar y ffin gydag awdurdodau eraill yng Nghymru, ond gwyddom y gall fod sgil-effeithiau yn nhermau llai o'n preswylwyr yn anfon plant ar draws y ffin o gofio am y galw cynyddol am ysgolion lle mae datblygiad yn digwydd. Felly byddwn yn sicrhau ein bod yn gwybod am hyn ac yn rhoi ystyriaeth iddo yn y cyswllt hwnnw.*

**Casgliad y Cadeirydd:**

Hoffwn ddiolch i'r swyddog am y diweddariad ar y mater hwn. Mae ffocws Llywodraeth Cymru ar carbon sero-net yn werth ei nodi ac er ein bod yn cydnabod costau ôl-osod yr ysgol, mae'n rhaid i ni eich canmol ar y gwelliannau a wnaed hyd yma a fu'n rhagorol. Byddwn yn hoffi gweld buddsoddiad parhaus yn yr ysgol, gan fod 2024-25 beth amser i ffwrdd ac mae angen i ddisgyblion presennol gael budd. Deallwn y problemau capasiti, bod yn ysgol ar y ffin a fod cyfyngiadau ar yr hyn y gallwn ei wneud am hynny. Teimlwn y byddai holiadur yn syniad da i gael data meintiol am resymau yn hytrach na dibynnu ar achlust. Bu'r adroddiad yn ddefnyddiol iawn a byddwn yn edrych ar ailedrych ar hwn yn ddiweddarach yn 2022.

4. **<u>Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg</u>**

Gwahoddwyd y Pennaeth Gwasanaeth Plant a Phobl Ifanc i gyflwyno diweddariad byr ar y casgliadau o'r broses ymgynghori oedd yn cynnwys digwyddiadau wyneb i wyneb gyda rhanddeiliaid a phenaethiaid ysgolion. Tynnodd y swyddog sylw at y pwyntiau dilynol:

- Derbyniwyd pump ymateb ffurfiol hyd yma, ond disgwylir mwy cyn y dyddiad cau.
- Un casgliad allweddol yw fod cefnogaeth gyffredinol ar gyfer twf y Gymraeg ar draws Sir Fynwy.
- Mae peth siom y bydd ein hysgol egin ar agor o 2023 ac nid o 2023. Hefyd, beth pryderon gan yr ysgolion cyfrwng Saesneg ar yr effaith a gaiff arnynt, a sut y byddwn yn sicrhau fod ein cynllun yn ddigon cadarn i ddatblygu'r Gymraeg yn ein holl ysgolion, cyfrwng Cymraeg neu gyfrwng Saesneg.
- Rydym wedi trafod y cynllun yn llawn gydag Estyn ac yn disgwyl eu hymateb.
- Rydym wedi gweithredu o amgylch yr ysgol egin a drafodwyd yn eich cyfarfod blaenorol gan anelu i sefydlu ysgol egin cyn gynted ag sydd modd ond yn sylweddoli fod rhai heriau sylweddol wrth gyflawni hyn yn gyflym gyda'r angen am broses ymgynghori lawn ac etholiad ym mis Mai 2022. Fodd bynnag, rydym yn hyderus y gallwn gael hynny yn ei le ar gyfer mis Medi 2023. Ar gyfer plant sy'n edrych ar fynychu'r ysgol honno o fis Medi 2022, byddwn yn edrych ar ddarparu ysgol egin ar gyfer dosbarth derbyn a blwyddyn 1 yn y cyfamser, a byddwn yn anelu i gyfathrebu hynny i rieni cyn gynted ag sydd modd fel y gallant wneud eu cynlluniau.

- Bydd angen i'r Cabinet ac wedyn Lywodraeth Cymru gymeradwyo'r drafft Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg.
- Rwy'n falch i'ch diweddaru fod y cyngor wedi sefydlu cynllun peilot 3 blynedd ar gyfer darpariaeth trochi hwyr sy'n mynd rhagddo gydag ychydig o ddisgyblion yn mynychu ac ymddengys ei fod yn cael cryn effaith yn barod ar Ysgol y Ffin a cheisiadau ar gyfer 2023, ac felly mae hyn yn gynnydd enfawr ar yr hyn sydd gennym hyd yma. Er mwyn cyflymu'r gwaith hwn, rwy'n falch i'ch hysbysu fod y cyngor wedi gwneud cais am ac wedi derbyn tua £84,000 mewn arian grant i gefnogi trochi hwyrach dros y 2 dymor nesaf, yn seiliedig ar staffio ac adnoddau ychwanegol a thechnegau hyfforddiant, fydd yn ein helpu gyda galw uwch yn y dyfodol.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Swyddog am y diweddariad cynhwysfawr a gwahoddodd gwestiynau gan aelodau. Datganodd y Cynghorwyr Tudor Thomas a David Hughes fuddiant personol ond heb fod yn rhagfarnu fel llywodraethwyr Ysgol y Ffin, y Fenni.

**Her gan Aelod:**

- Gan gydnabod y gall y cynlluniau gorau fynd o chwith oherwydd dylanwadau allanol, fodd bynnag mewn adroddiad llywodraethwyr diweddar gerbron bwrdd llywodraethwyr Brenin Harri, deallai aelodau fod rhai myfyrwyr a fu'n flaenorol yn derbyn darpariaeth Gymraeg yn Nhorfaen wedi canfod fod eu darpariaeth wedi dod i ben ac fel canlyniad yn mynd i Ysgol Brenin Harri, oedd yn ceisio eu cefnogi. A oes unrhyw gyllid ychwanegol a fedrai fod ar gael i Ysgol Brenin Harri i wneud hyn?
- 

*Ar hyn o bryd, mae'r grant ar gyfer trochi hwyr, nid ar gyfer y rhai sydd eisoes yn siarad rhywfaint o Gymraeg. Fodd bynnag, mae ysgolion uwchradd mewn awdurdodau eraill wedi sefydlu darpariaeth trochi hwyr yn eu siroedd eu hunain. Rydym yn gweithio'n agos gyda phartneriaid ac efallai y bydd cyllid yn y dyfodol, ond nid oes dim byd y gwn amdano ar hyn o bryd.*

**Casgliad y Cadeirydd:**

Diolchodd y cadeirydd i'r swyddog am roi'r diweddariad. Er ei bod yn siomedig y caiff yr ysgol egin ei gohirio, mae'r heriau yn anorfod ac mae'n dda gweld y cynllun peilot ar gyfer trochi hwyr a ymddengys yn gweithio yn nhermau cadw plant ynghyd mewn ysgolion a pharhau eu dysgu.

5. **<u>Cyflogaeth a Sgiliau</u>**

Dywedodd y Cadeirydd fod Pwyllgor Dethol yr Economi a Datblygu wedi craffu ar yr adroddiad hwn ac y daw gerbron y pwyllgor ar sail gwybodaeth i ddiweddaru aelodau ar weithgareddau'r Tîm Cyflogaeth a Sgiliau. Gofynnodd y Cadeirydd i'r swyddogion i gyflwyno'r adroddiad yn gryno, gan roi sylw i'r prif bwyntiau:

- Cafodd y Tîm ei ailstrwythuro nawr gyda darpariaeth yn awr yn cynnwys Kickstart, InFuSe a thîm cyflenwi estynedig Cymunedau dros Waith a Mwy.
- Mae Kickstart yn rhaglen cyflogaeth y Deyrnas Unedig a ddatblygwyd mewn ymateb i Covid 19 ac mae'n rhan o ymateb Covid Llywodraeth y Deyrnas

Unedig o fewn eu 'Cynllun Swyddi', gan anelu i greu miloedd o swyddi nawr a gyllidir yn llwyr ar draws Cymru, Lloegr a'r Alban. Mae'r cynllun yn gydnaws gyda Chynllun Cyflogadwyedd Llywodraeth Cymru wrth baratoi am newid blaengar ym myd gwaith, gan ymateb i fylchau sgiliau presennol a'r dyfodol a rhoi dull wedi'i bersonoli at gymorth cyflogadwyedd. Mae'r Cynllun yn anelu i greu lleoliadau gwaith chwe mis ar gymhorthdal llawn ar gyfer unigolion 16-24 oed sy'n hawlio Credyd Cynhwysol ac sydd mewn risg o ddiweithdra hirdymor.

- InFuSe yw rhaglen gwasanaethau dyfodol arloesol y sector cyhoeddus Cronfa Gymdeithasol Ewrop sy'n anelu i feithrin sgiliau a chapasiti ar gyfer arloesedd mewn gwasanaethau cyhoeddus ar draws Prifddinas-Ranbarth Caerdydd. Mae'r rhaglen yn galluogi gweithwyr cyflogedig i geisio mynd i'r afael ag amrywiaeth o heriau lleol byd go iawn, yn cynnwys datgarboneiddio cerbydau'r Cyngor, effeithiolrwydd ynni cartref, cyfleoedd am ynni o faw cŵn, cynyddu cadwyni cyflenwi drwy gaffaeliad a datblygu cymunedol seiliedig ar asedau.
- Mae'r Tîm Cyflogaeth a Sgiliau yn arwain ar/cyflenwi prosiectau gydag amcangyfrif gwerth o £2.4m ym mlwyddyn ariannol 2021-22 yn unol â thargedau a deilliannau prosiect.
- Daw Ysbrydoli i Gyflawni, Ysbrydoli i Weithio a Sgiliau Gwaith, sy'n brosiectau a gyllidir gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop, i ben ym mis Rhagfyr 2022 pan ddaw ffrwd cyllid yr Undeb Ewropeaidd i ben. Mae hyn yn rhoi her i gynaliadwyedd NEET awdurdodau lleol a ffigurau diweithdra. Bydd colli darpariaeth ynghyd â phrofiad, gwybodaeth a setiau sgiliau y timau hyn yn cael effaith negyddol ar breswylwyr Sir Fynwy.
- Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn arwain ar bapur cyflogadwyedd ar ran deg awdurdod lleol Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, sy'n nodi gofynion cyflogaeth a sgiliau y rhanbarth ar gyfer y dyfodol ac yn ymchwilio sut y gall y Gronfa Rhannu Ffyniant gefnogi hyn yn y dyfodol.
- Aiff yr adroddiad a gymeradwywyd gan Fwrdd Strategol Prifddinas-Ranbarth Caerdydd drwy gabinet pob Awdurdod Lleol.
- Yn y cyfamser, cyflwynwyd cais Cronfa Adnewyddu Cymunedol ar gyfer cyllid tymor byr rhwng mis Awst 2021 a mis Mawrth 2022 yn barod am gynnig dilynol i' Gronfa Rhannu Ffyniant y Deyrnas Unedig yn 2022/23.
- Gobeithir y bydd y cynnig yn hybu'r gwasanaeth presennol drwy:
    - Datblygu system brysbennu - dull i sicrhau atgyfeiriadau i'r gefnogaeth gywir;
    - Cyflogi Gweithiwr Ymgysylltu Llesiant;
    - Gwella ymgysylltu digidol ac allgymorth;
    - Cyrchu cyfleoedd cyflogaeth mewn Adeiladu a Digidol;
    - Targedu cymorth cyflogaeth ar gyfer y digartref/rhai mewn risg o ddod yn ddigartref.

Diolchodd y Cadeirydd i'r tîm a roddodd eu hamser i gyflwyno i aelodau ar led eu gwaith a gwahoddodd gwestiynau gan aelodau.

**Cwestiynau gan Aelodau:**

- A gaf eglurhad os yw pobl ifanc yn cymryd blwyddyn allan o brifysgol yn cael eu cyfrif fel NEET?

*Ydynt, byddai hyn yn cynnwys unrhyw un nad yw'n ymwneud ag unrhyw hyfforddiant addysgol, felly gall hyn gynnwys athletwyr a phobl sydd â llawer o resymau gwahanol felly mae'n bwysig fod y tîm yn ymchwilio'r ffigurau er mwyn penderfynu pam nad yw pobl mewn addysg neu gyflogaeth ac os y byddent yn cael budd o'n gwasanaethau. Mae rhai pobl ifanc yn dioddef pryder a byddent yn manteisio o gael cefnogaeth a drwy'r pandemig, daeth yn fwy amlwg. Gall rhai fod yn colli cymorth y dylent fod yn ei gael o wasanaethau iechyd meddwl plant ac oedolion ond yr allwedd i hyn yw deall y rhesymau a helpu i'w cefnogi. Mae'r Panel Help Cynnar yn effeithlon wrth roi'r pwynt mynediad hwnnw a bod yn angor iddynt, yn neilltuol os ydynt yn derbyn cymorth barhaus.*

- Mae'n galonogol clywed fod 'Ysbrydoli i Gyflawni' yn dechrau ym mlwyddyn 6. Os yw cyllid i ddod i ben, a fedrwch fanylu ar eich sefyllfa cyllid y dyfodol?

  *Buom yn llwyddiannus yn ddiweddar yn sicrhau cyllid interim cyn cyllid Ffyniant y Deyrnas Unedig a rydym yn gweithio fel 10 awdurdod lleol i benderfynu beth sy'n dod nesaf yn nhermau ymagwedd ranbarthol at gynllun cyflenwi lleol. Rydym eisiau parhau i roi cefnogaeth ar gyfnod allweddol 2 hyd at gyfnod allweddol 3 a hoffem ddychwelyd yn yr haf gyda diweddariad ar hynny.*

- A ydych mewn cyswllt llawn gyda'r 4 ysgol gyfun?

  *Mae gennym weithiwr ym mhob un o'r ysgolion sy'n rhan o'r staffio ac mae hynny wedi ei gwneud yn bosibl rhoi cymorth yn ei le yn gyflym iawn, yn wahanol i rai ysgolion eraill mewn gwledydd eraill lle mae cymorth yn fwy ar sail 'galw heibio'. Ystyriwn bod hyn yn allweddol.*

- Wrth edrych ar Atodiad 3 a'r gwahanol gynlluniau, nid wyf yn siŵr os yw'r cyfranogwyr yn dod o Sir Benfro, felly mewn adroddiad pellach a fedrem gael dadansoddiad fel y gallwn wneud cymariaethau. Byddai hynny'n ddefnyddiol.
  *Mae'r niferoedd yn benodol i Sir Fynwy ond gallaf roi rhifau ar gyfer Gwent yn ehangach os hoffech wneud y cymariaethau hynny.*

  Datganodd Maggie Harris fuddiant personol ond heb fod yn rhagfarnu fel llywodraethwr Ysgol Gynradd Deri View.

- Gall y systemau cymorth hyn fynd dan y radar os na wyddir amdanynt. Mae'r math yma o systemau tebyg i'r System Help Cynnar yn eu galluogi i alw mewn a allan o fywydau plant fel sydd angen ac mae'n ddull cymorth gwerthfawr tu hwnt ar gyfer pobl ifanc. Rwy'n llwyr gefnogi eich gwaith.

**Crynodeb y Cadeirydd:**

Diolchodd y Cadeirydd i'r tîm am eu gwaith gwerthfawr yn cefnogi pobl ifanc ar y cam pontio rhwng cyfnod allweddol 2 (cynradd) i gyfnod allweddol 3 (cyfun) a dywedodd bod yr ymyriadau yn hollbwysig ar gyfer y plant nad yw eu rhieni efallai yn gallu eirioli ar eu rhan. Cafodd y pwyllgor sicrwydd yn nhermau'r sefyllfa cyllid parhaus i sicrhau nad yw'r bobl ifanc hyn yn parhau mewn sefyllfa o beidio bo mewn addysg na chyflogaeth, felly roedd yn galondid i'r pwyllgor glywed am y gefnogaeth a roddir i bobl ifanc yn yr amgylchiadau hyn. Cytunodd y pwyllgor i wahodd swyddogion i ddychwelyd yn haf 2022.

6. **Blaengynllun Gwaith y Pwyllgor Dethol Plant a Phobl Ifanc**

   Tynnodd y Cadeirydd sylw aelodau at gyfarfod nesaf y Pwyllgor Dethol Plant a Phobl Ifanc a fyddai'n trafod y Gwasanaeth Troseddu Ieuenctid a Monitro'r Gyllideb Mis 7. Cytunodd y pwyllgor i alw cyfarfod arbennig ar 31 Ionawr i graffu cynigion cyllideb y Cyngor.

7. **Cynllun Gwaith y Cabinet a'r Cyngor**

   Nododd y pwyllgor yr adroddiad ond ni thynnodd sylw at unrhyw beth oedd angen craffu arbennig na roddwyd ystyriaeth iddo wrth ddatblygu rhaglen gwaith y Pwyllgor Dethol.

8. **Cadarnhau cofnodion y cyfarfod blaenorol**

   Cytunwyd ac eiliwyd cofnodion y cyfarfod blaenorol.

9. **Cadarnhau dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf: 20 Ionawr 2022**

The meeting ended at **11.20 am**